





IHBC

· INSTITUTE · OF · HISTORIC ·
BUILDING · CONSERVATION

# Valuing our heritage

The Institute exists to establish, develop and maintain the highest standards of conservation practice, to support the effective protection and enhancement of the historic environment, and to promote heritage-led regeneration and access to the historic environment for all.

## The IHBC is the professional body for building conservation practitioners and historic environment experts working in England, Northern Ireland, Scotland and Wales, with connections to the Republic of Ireland.

IHBC members come from a range of professional disciplines in the public, private and voluntary sectors, including conservation officers, planners, architects, regeneration practitioners and academics. The work of members varies from overseeing small-scale traditional repairs to managing multi-million pound area regeneration projects.

The historic environment is all around us and creates a sense of place and local identity. It provides continuity with the past, but also accommodates change and helps places adapt for the present and future. But to thrive, historic places need the specialist and cross-disciplinary management skills that IHBC members can provide, drawing on the highest professional standards, nationally and internationally.



Historic places attract people, activity and investment, giving new life to their communities and helping make places more competitive. They play a central role in regenerating towns, cities and rural areas all around the UK, especially helping to repopulate inner-city areas. IHBC members often work at the cutting edge of regeneration practice.



The terms design and heritage-led regeneration have become synonymous with dramatic urban transformations, often in previously failing areas. Where there is great pressure for development, the historic environment can help to maintain variety and a range of community facilities. In rural areas, historic buildings assist tourism and promote local economic diversity.

The IHBC is committed to making development more sustainable. Maintaining and converting historic buildings is a way of conserving the resources used to build them, and minimising the carbon emissions associated with demolition and redevelopment. Historic places often better cater for the needs of pedestrians and accommodate mixed uses and varied rental levels, essential to nurturing small businesses and encouraging innovation.



Design is another key concern for the Institute. Historic places will always be the inspiration for the great architecture of the future. The combination of refurbished old buildings, exciting new ones, good urban design and high quality spaces has created places where people positively choose to live, work and spend leisure time.



Many Institute members are involved in historic building projects aimed at supporting local communities, providing education, assisting cultural development, promoting tourism and improving the quality of life.

> "The IHBC's underlying principle is that historic buildings and places have their own intrinsic cultural, social, educational and spiritual value..."

The IHBC's underlying principle is that historic buildings and places have their own intrinsic cultural, social, educational and spiritual value. Any nation that claims to cherish cultural achievement in any field has a duty to care for its heritage. IHBC members are duty bound to respect that heritage across their professional work.

The IHBC's activities include lobbying at international, national, regional and local levels. The Institute has a strong network of regional and national branches, with regular training, CPD and education events. A range of publications includes the Institute's journal Context. There is also a full and lively website on www.ihbc.org.uk (see the Wales branch web page for specific Welsh news)

**Contact the Institute at:**

The Administrator, IHBC, Jubilee House,
High Street, Tisbury, Wiltshire SP3 6HA
**Tel: 01747 873133 Fax: 01747 871718**
**E-mail: admin@ihbc.org.uk**

IHBC

· INSTITUTE · OF · HISTORIC ·
BUILDING · CONSERVATION

Registered as a Charity: No. 1061593. Company limited by Guarantee, Registered in England No.3333780







IHBC

·Y·SEFYDLIAD·CADWRAETH·
ADEILADU·HANESYDDOL

# Gwerthfawrogi ein hetifeddiaeth

Mae'r sefydliad yn bodoli i sefydlu, datblygu a chynnal safonau uchaf arferion cadwraeth, i gefnogi gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol yn effeithiol, ac i hyrwyddo adfywio dan arweiniad treftadaeth a mynediad i bawb at yr amgylchedd hanesyddol.

**Corff proffesiynol yw'r IHBC ar gyfer ymarferwyr cadwraeth adeiladau ac arbenigwyr yr amgylchedd hanesyddol sy'n gweithio yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, gyda chysylltiadau â Gweriniaeth Iwerddon.**



Daw aelodau IHBC o amrywiaeth o wyddorau proffesiynol yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gan gynnwys swyddogion cadwraeth, cynllunwyr, penseiri, ymarferwyr adfywio ac academyddion. Mae gwaith aelodau'n amrywio o oruchwylio gwaith trwsio traddodiadol ar raddfa fechan i reoli prosiectau adfywio ardaloedd miliynau o bunnoedd.

Mae'r amgylchedd hanesyddol ymhobman o'n cwmpas ac mae'n creu ymdeimlad o le a hunaniaeth leol. Mae'n creu didoredd gyda'r gorffennol, ond mae hefyd yn rhoi lle i newid ac yn helpu lleoedd addasu ar gyfer heddiw a'r dyfodol. Ond, iddynt ffynnu, mae mannau hanesyddol angen y sgiliau rheoli arbenigol a thrawsddisgyblaethol y gall aelodau IHBC eu darparu, gan dynnu ar y safonau proffesiynol uchaf, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.



Mae mannau hanesyddol yn denu pobl, gweithgarwch a buddsoddiad, gan roi bywyd newydd i'w cymunedau a chynorthwyo gwneud lleoedd yn fwy cystadleuol. Maent yn chwarae rhan ganolog wrth adfywio trefi, dinasoedd ac ardaloedd gwledig ar hyd a lled y DU, yn enwedig yn cynorthwyo ailboblogi canol dinasoedd. Bydd aelodau IHBC yn aml yn gweithio ar flaen arferion adfywio.



Daeth y termau dylunio ac adfywio dan arweiniad treftadaeth yn gyfystyr â thrawsffurfio trefol dramatig, yn aml mewn ardaloedd oedd gynt yn nychu. Lle mae pwysau mawr i ddatblygu, gall yr amgylchedd hanesyddol gynorthwyo cadw amrywiaeth a dewis o gyfleusterau cymunedol. Yng nghefn gwlad, mae adeiladau hanesyddol yn cymorth i dwristiaeth ac yn hybu amrywiaeth economaidd lleol.

Mae IHBC yn ymrwymo i wneud datblygiad yn fwy cynaliadwy. Mae cynnal ac addasu adeiladau hanesyddol yn ffordd o warchod yr adnoddau a ddefnyddiwyd i'w hadeiladu, a lleihau'r allyriadau carbon cysylltiedig â dymchwel ac ailddatblygiad. Yn aml bydd mannau hanesyddol yn darparu'n well ar gyfer anghenion cerddwyr ac yn rhoi lle i ddefnyddiau cymysg a rhenti amrywiol, sy'n hanfodol i feithrin busnesau bach ac annog arloesi.

Maes arall o ddiddordeb allweddol i'r Sefydliad yw dylunio. Bydd mannau hanesyddol bob amser yn ysbrydoli pensaernïaeth wych y dyfodol. Mae cyfuno hen adeiladau a ailwampiwyd, rhai newydd cyffrous, dylunio trefol da a mannau agored o safon wedi creu lleoedd y mae pobl yn dewis byw, gweithio a threulio amser hamdden ynddynt.

Mae llawer o aelodau'r Sefydliad yn ymwneud â phrosiectau adeiladau hanesyddol sy'n anelu at gefnogi cymunedau lleol, addysgu, cynorthwyo datblygiad diwylliannol, hyrwyddo twristiaeth a gwella ansawdd bywyd.

> "Egwyddor sylfaenol IHBC yw bod gan adeiladau a mannau hanesyddol eu gwerth diwylliannol, cymdeithasol, addysgol ac ysbrydol cynhenid eu hunain..."

Egwyddor sylfaenol IHBC yw bod gan adeiladau a mannau hanesyddol eu gwerth diwylliannol, cymdeithasol, addysgol ac ysbrydol cynhenid eu hunain. Mae'n ddyletswydd ar unrhyw genedl sy'n honni coleddu cyflawniad diwylliannol yn unrhyw faes ofalu am ei threftadaeth. Mae'n rhwym ar aelodau IHBC i barchu'r dreftadaeth honno ymhob rhan o'u gwaith proffesiynol.

Bydd gweithgareddau IHBC yn cynnwys lobïo'n rhyngwladol, yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae gan y Sefydliad rwydwaith cryf o ganghennau rhanbarthol a chenedlaethol, gyda hyfforddiant, Datblygiad Proffesiynol Parhaus ac achlysuron addysg rheolaidd. Ymysg amrywiaeth o gyhoeddiadau mae Context, cyfnodolyn y Sefydliad. Mae gwefan lawn a bywiog hefyd yn www.ihbc.org.uk (gwelwch dudalen we cangen Cymru am newyddion Cymreig penodol) **Cysylltwch â'r Sefydliad yn:**

The Administrator, IHBC, Jubilee House,
High Street, Tisbury, Wiltshire SP3 6HA
**Ffôn 01747 873133 Ffacs: 01747 871718**
**E-bost: admin@ihbc.org.uk**

IHBC

·Y·SEFYDLIAD·CADWRAETH·
ADEILADU·HANESYDDOL

Registered as a Charity: No. 1061593. Company Limited by Guarantee, Registered in England No. 3333780